Byw heb sicrwydd dŵr: Canllaw Athrawon

Gwybodaeth

Cynlluniwyd y gweithgaredd 'Byw Heb Sicrwydd Dŵr' i gynorthwyo disgyblion i feddwl yn feirniadol, ac i ddatblygu dealltwriaeth ag empathi gyda phobl ledled y byd. Mae angen tua hanner awr i'w gwblhau, ac mae angen lleoliad â digon o ofod llawr, megis neuadd ysgo.l

Mae'r disgyblion yn derbyn cymeriad penodol i'w ystyried, e.e. "mam-gu sy'n byw mewn gwersyll i bobl wedi'u dadleoli yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo". Byddai'n ddefnyddiol chwilio am y wlad ar fap o'r byd, ond nid oes angen ymchwilio i'r cymeriadau cyn chwarae'r gêm. Yn hytrach, dylai'r disgyblion ddefnyddio'r wybodaeth sydd ganddynt eisoes ynghyd a'u dealltwriaeth o faterion byd-eang i gyfiawnhau penderfyniadau.

Gallwch ddefnyddio'r daflen atodedig o gardiau cymeriadau i ddarparu ystod eang o gymeriadau gwahanol o bob cwr o'r byd i'ch disgyblion. Yn dibynnu ar faint y dosbarth, efallai y byddwch yn dymuno rhannu eich disgyblion yn grwpiau a rhoi un cerdyn cymeriad i bob grŵp.

Dylech ganiatáu ychydig o amser i'ch disgyblion ystyried neu drafod y cymeriad. Byddai hyn yn amser da iddynt ofyn unrhyw gwestiynau cyffredinol, megis ble mae'r wlad. Dylech ofyn i'ch disgyblion ddychmygu bywydau dyddiol y cymeriadau, ac mae'n bosibl y byddant yn dewis eu henwi.

Gosodwch eich disgyblion mewn rhes ar hyd wal, fel bod lle iddynt gerdded ymlaen. Os yw'r gofod yn gyfyngedig, efallai y byddwch yn gofyn i bob grŵp ddewis un disgybl i'w cynrychioli. Eglurwch y byddwch yn darllen set o ddatganiadau am ddŵr. Ar gyfer pob datganiad, dylai'r disgyblion gamu ymlaen os yw'r datganiad yn berthnasol iddynt hwy, neu aros yn yr unfan os nad ydyw.

Darllenwch bob datganiad yn ei dro o'r rhestr o ddatganiadau a ddarperir, gan roi amser i'r disgyblion benderfynu. Neu galwch ddefnyddio'r PowerPoint o ddatganiadau i'w harddangos ar sgrin. Efallai y bydd angen i chi egluro rhai o'r datganiadau anoddaf. Os oes gan y disgyblion gwestiynau am eu cymeriadau neu os ydynt yn ansicr sut i ymateb i ddatganiad, dylid dyfalu'n rhesymegol. Mae'n well gadael unrhyw drafodaethau nes y diwedd. Efallai y dylid pwysleisio nad cystadleuaeth na ras yw'r gweithgaredd hwn, a hefyd gall fod yn ddefnyddiol dangos maint cam priodol!

Ar ddiwedd y gweithgaredd, dylai'r disgyblion fod wedi'u gwasgaru ar hyd yr ystafell. Dylid defnyddio'r gofod hwn fel pwynt cychwynnol ar gyfer trafodaeth am bwy sy'n dioddef fwyaf o ddiffyg sicrwydd dŵr. Gallwch ddefnyddio'r 'PowerPoint: trafodaeth' i ysgogi ac arwain y drafodaeth gyda'r disgyblion.

Mae'n bwysig i'r disgyblion gofio ble'r oedd eu cymeriadau ar y diwedd, ond mae'n bosibl y bydd yn anodd cynnal trafodaeth tra fod y disgyblion yn dal i sefyll. Un syniad fyddai rhoi llinell

 Copyright © Oxfam GB. You may reproduce this document for educational purposes only.

ar fwrdd gwyn neu ddarn mawr o bapur a gofyn i bob disgybl nodi ei safle ar y llinell, gyda disgrifiad byr o'r cymeriad.

Byw heb sicrwydd dŵr: Datganiadau

1. Mae gennych gyflenwad dŵr yn eich cartref.
2. Rydych yn medru dod o hyd i ddŵr yfed glân pryd bynnag bo angen.
3. Gallwch ddisgwyl cawodydd glaw rheolaidd.
4. Pan fo prinder glaw gallwch ddod o hyd i ddŵr ar gyfer eich cnydau.
5. Rydych yn deall sut i ddefnyddio arferion hylendid da.
6. Gallwch ddod o hyd i doiledau a chyfleusterau glanweithdra i'w defnyddio.
7. Mae gennych lestri i storio a chludo dŵr.
8. Mae gan eich cartref bibau a chwteri pwrpasol.
9. Nid oes rhaid i chi boeni y bydd gwrthdaro yn eich gorfodi i symud i ardal â llai o ddŵr.
10. Nid oes rhaid i chi boeni bod ffatrïoedd yn rhoi sbwriel neu wastraff gwenwynig mewn afonydd neu lynnoedd cyfagos.
11. Nid oes rhaid i chi boeni y bydd eich cartref yn dioddef llifogydd.
12. Gallwch ddibynnu ar gymorth eich llywodraeth os fydd eich cartref yn dioddef llifogydd.
13. Mae eich llywodraeth yn gweithio i sicrhau cyflenwad dŵr diogel a rhwydd i'w ddefnyddio.
14. Mae gennych fynediad rheolaidd at sebon ar gyfer glendid personol a glendid cartref.
15. Nid oes rhaid i chi boeni am ddal afiechydon o'r dŵr (megis dolur rhydd).

Copyright © Oxfam GB. You may reproduce this document for educational purposes only.

Byw heb sicrwydd dŵr: Cymeriadau

Eich cymeriad… Mam-gu sy'n byw mewn gwersyll i bobl wedi'u dadleoli yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo, yn dilyn rhyfel. Un pwmp dŵr sydd ar gael ar gyfer y gwersyll i gyd.	**Eich cymeriad…** Menyw ifanc sydd wedi dianc o'i chartref yn Sudan yn sgil gwrthdaro, ac sydd bellach yn cuddio yn y diffeithwch. Rhaid i chi chwilio am fwyd a dŵr.
Eich cymeriad… Menyw sy'n byw mewn tref yn Nepal heb bibau i gyflenwi dŵr. Rhaid i chi a'ch plant ddefnyddio dŵr o'r afon gyfagos, ac yn ddiweddar mae'ch plant wedi bod yn sâl.	**Eich cymeriad…** Dyn ag anabledd, o leiafrif ethnig sy'n byw mewn pentref ym Molivia. Mae gan eich cartref gyflenwad dŵr. Fodd bynnag, nid oes gennych incwm na chynhaliaeth, ac mae angen cadair olwyn arnoch i symud.
Eich cymeriad… Hen fenyw sy'n byw mewn tref fechan yn Lloegr. Rydych yn straffaglu i droi'r tapiau ymlaen ac i ymolchi, ond rydych yn derbyn cymorth gan ofalwr rhan amser.	**Eich cymeriad…** Gŵr busnes o'r Unol Daleithiau sy'n byw yn Indonesia. Mae eich cartref mewn dinas fawr ac rydych yn ennill cyflog uchel tu hwnt.
Eich cymeriad… Athro sengl yn byw yng nghefn gwlad Cymru.	**Eich cymeriad…** Arlywydd Uganda.

Copyright © Oxfam GB. You may reproduce this document for educational purposes only.

Eich cymeriad… Mam mewn pentref bach ym Mongolia. Nid yw'r tir yn cynhyrchu llawer o fwyd, ond mae eich cymuned yn cydweithio i dyfu digon o gnydau i bawb.	**Eich cymeriad…** Swyddog heddlu mewn tref fach ym Mexico. Mae'r isadeiledd lleol yn hen iawn ac nid yw'n gweithio'n iawn, ond mae'r llywodraeth yn dweud y bydd yn ei wella'n fuan.
Eich cymeriad… Plentyn ifanc yn China. Rydych yn byw mewn dinas ddiwydiannol, ger ffatri fawr sy'n pwmpio gwastraff i'r afon gyfagos.	**Eich cymeriad…** Canwr o Frasil. Wedi'ch magu mewn slym ond bellach rydych yn enwog ledled De America.
Eich cymeriad… Gweithiwr yn Fietnam. Yn ddiweddar colloch eich cartref a'ch teulu yn sgil llifogydd enfawr.	**Eich cymeriad…** Bancwr o'r Almaen. Rydych yn teithio ledled y byd yn rhinwedd eich swydd, gan aros mewn gwestai o hyd.
Eich cymeriad… Ffermwr corn o Kenya. Mae'r rhanbarth lle'r ydych yn byw yn dioddef sychder hir, ac mae'n dod yn anoddach tyfu cnydau.	**Eich cymeriad…** Merch 12 oed ym Malawi, sydd wedi gorfod gadael yr ysgol gan fod eich mam angen cymorth i gasglu dŵr a choed. Mae'r daith i'r ffynnon yn cymryd bron i awr.

Copyright © Oxfam GB. You may reproduce this document for educational purposes only.

Eich cymeriad… Arlywydd yr UDA.	**Eich cymeriad…** Meddyg mewn dinas yn Siapan. Rydych yn uchel eich parch ac yn cael llawer o waith.

Copyright © Oxfam GB. You may reproduce this document for educational purposes only.